

Presennol

Y Cyngorydd Mr C Jones OBE – Cadeirydd

Mr P Clarke

MC Clarke

Mrs J Kiely

Mr J Baker

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Thomas a/ac P Davies

Swyddogion:

Mark Galvin Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro
Kelly Watson Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Andrew Rees Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau

93. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

94. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD:

Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 29 Mehefin 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

95. AILBENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a'i ddiben oedd nodi bod cyfnod swydd dau Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau wedi cael eu hymestyn.

Cadarnhaodd na fydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys llai na phump na mwy na naw o aelodau, ac y bydd o leiaf dau ohonynt yn Gyngorwyr Bwrdeistref Sirol, yn unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnwys saith aelod, fel y nodir ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad.

Eglurodd y Swyddog Monitro y bydd cyfnod swydd dau o'r Aelodau Annibynnol yn dod i ben ym mis Hydref 2021. Roedd yr Aelodau'n gymwys i gael eu hailbenodi am dymor pellach. Ar ôl hynny, mae'r Rheoliadau'n datgan bod yn rhaid iddyn nhw ymddiswyddo gan na chant wasanaethu yn y swydd am fwy na dau dymor. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau'n nodi mai pedair blynedd yw uchafswm hyd yr ail dymor y swydd. Mae'r Aelodau wedi gwneud cyfraniad buddiol i lywodraethu'r Cyngor ac wedi cytuno i wasanaethu am dymor pellach.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod y Cyngor, ar 15 Medi 2021, wedi cymeradwyo ailbenodiad Mrs Judith Kiely a Mr Clifford Jones OBE am gyfnod pellach o bedair blynedd ar y Pwyllgor.

PENDERFYNIAD:

Bod y Pwyllgor wedi nodi ailbenodiad Mrs Judith Kiely a Mr Clifford Jones OBE i'r Pwyllgor am dymor pellach.

96. **POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i alluogi'r Pwyllgor Safonau i adolygu gweithrediad Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.

Dywedodd y byddai'r Aelodau yn ymwybodol o Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor (sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad), sydd wedi'i gynllunio i osod fframwaith i annog a galluogi gweithwyr i ddatgelu os ydyn nhw â phryderon gwirioneddol, ac i roi sicrwydd y byddent yn cael eu diogelu rhag dial ac erledigaeth yn sgil gwneud hynny.

Mae monitro a gweithredu'r polisi yn un o'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r Pwyllgor Safonau. Adolygwyd y polisi i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben, a daethpwyd i'r casgliad bod y fersiwn bresennol yn foddhaol ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r arferion gorau. O ganlyniad, ni chynigir gwelliant i'r Polisi ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi cyhoeddiad y polisi ar wefan y Cyngor ac y bydd pob gweithwyr newydd yn cael gwybod amdano fel rhan o'u proses sefydlu.

PENDERFYNIAD:

Bod y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

97. **EITEMAU BRYD**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:10